**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (35)**

**Dydd Mawrth, 4 Rhagfyr 2001**

**AGENDA**

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Datganiad**
**Bydd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg yn gwneud datganiad ar y Strategaeth Diwylliant**

**Eitem 3**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 4**
**Cynnig cyfansawdd i gymeradwyo:**
*NDM874* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

Yn cymeradwyo:

1. **Gorchymyn Addysg (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru) (Rhoi Swyddogaeth) 2001** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Gorchymyn Addysg (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru) (Rhoi Swyddogaeth) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

2. **Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Allanol) (Disgrifiadau o Brofion) (Cymru) 2001** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Addysg (Cymwysterau Allanol) (Disgrifiadau o Brofion) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

3. **Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001; ac

Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw fater sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft Rheoliadau Lliwiau mewn Bwyd (Diwygio) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

**Eitem 5**
**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2001**
*NDM875* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn ystyried egwyddor y Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001

**Cyflwynwyd y gwelliant canlynol:**
**Gwelliant 1 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**
Ar ddiwedd y cynnig ychwanegu:
Yn nodi'r posibilrwydd y bydd Trysorlys Ei Mawrhydi yn lleihau'r gyllideb a ddyrennir i'r Cynulliad ac yn cyfarwyddo'r Gweinidog i sicrhau na fydd hyn yn effeithio ar wasanaethau rheng flaen yng Nghymru.

*NDM876* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw arbennig y Cynulliad at unrhyw fater o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001; ac

2. Yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 6 Tachwedd 2001.

Cliciwch yma i weld y Rheoliadau drafft
Cliciwch yma i weld Adroddiad y Pwyllgor Deddfau

**Eitem 6**
**Dadl ar Ofal Plant**
*NDM877* **-** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol:

Yn croesawu Adroddiad Tasglu'r Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant ac yn nodi y bydd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cyhoeddi cynllun gweithredu erbyn diwedd Chwefror 2002.

*Gosodwyd Adroddiad Tasglu'r Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Tachwedd 2001.*

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol*
*(1)+(2)+(3)+(4)*
*(5)*

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynbt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnwys yn y Cynllun Gweithredu hwn:

- Gynlluniau i recriwtio a hyfforddi gweithwyr gofal plant proffesiynol
- Mesurau i gryfhau rôl partneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Mesurau i gryfhau gallu'r Is-Adran Plant a Theuluoedd
- Cynlluniau i hyrwyddo darparu gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg
- Cynlluniau i gefnogi a datblygu rôl y sector gwirfoddol o safbwynt darparu gofal plant

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw hefyd ar y Gweinidog i gynnal trafodaeth ar y Cynllun Gweithredu hwn mewn Cyfarfod Llawn ym mis Mawrth 2002.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â'r Gweinidog dros Gyllid, i ddatblygu model cyllido digonol, cynaliadwy a thymor hir ar gyfer y strategaeth, gan fynd i'r afael â gofal plant, sy'n fater allweddol.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gydweithio'n agos â Llywodraeth y DU i sicrhau'r Fframwaith Ddeddfwriaethol gorau posibl ar gyfer hyrwyddo lles plant ifanc.

**Gwelliant 5 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru);**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod pwysigrwydd gweithlu gofal plant sydd wedi cael safon uchel o hyfforddiant ac sy'n cael ei reoleiddio'n briodol.

Cliciwch yma i weld *Adroddiad Tasglu'r Strategaeth Genedlaethol Gofal Plant* - Dim Copi Cymraeg ar gael. Ni fydd y ddogfen ar gael ar We'r Siambr.

**Eitem 7**
**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 16 - *Local Planning Partnership and the Participation of Children & Young People***
*NDM878* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Rhif 16) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Tachwedd 2001.

Cliciwch yma i weld Adroddiad Grant Arbennig Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Rhif 16) (Cymru) 2001 - Dim Copi Cymraeg ar gael

**Eitem 8**
**Cynnig i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 16A - *Local Planning Partnership and the Participation of Children & Young People***
*NDM879* **-** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Dan Adran 88B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ac yn unol â Rheol Sefydlog 19.8, yn cymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Rhif 16A) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Tachwedd 2001.

Cliciwch yma i weld Adroddiad Grant Arbennig Cyllid Llywodraeth Leol (Cymru) (Rhif 16A) (Cymru) 2001 - Dim Copi Cymraeg ar gael

**Eitem 9**
**Dadl ar God Gweinidogion y Cynulliad**
*NDM880* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Dan Reol Sefydlog 2.7, yn cymeradwyo'r canllawiau diwygiedig i aelodau'r Cabinet ar gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau'n briodol, sydd i'w cael yn y ddogfen "Cod y Gweinidogion", a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Tachwedd 2001.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***
*Yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau'n cael eu cymryd yn unigol (1)+(2)+(3)*

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn tanlinellu pwysigrwydd glynu at ymddygiad personol o'r safon uchaf wrth ymgymryd â'u dyletswyddau yn y Siambr.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn cyfarwyddo'r Llywodraeth i gyhoeddi canllawiau clir ar rôl Dirprwy Weinidogion.

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**
Ychwanegu ar ddiwedd y cynnig:
Yn rhoi pwyslais arbennig ar ddyletswydd Gweinidogion i lynu at egwyddor cyfrifoldeb ar y cyd.

Cliciwch yma i weld y "Cod y Gweinidogion" - Dim Copi Cymraeg ar gael

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 6 Rhagfyr 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**